



Teitl	Rhaglen Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol	
Rhif yr Eitem	6	
Dyddiad y Cyfarfod	15 Rhagfyr 2020	
<p>I ystyried a sylwi ar y materion canlynol:</p> <p>Rydym wedi cael cais gan Brifysgol Abertawe i rannu cyfle cyffrous i reolwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector i ymuno mewn rhaglen 10-mis i ddatblygu atebion gwasanaeth newydd i wella cynhyrchiant a chyflwyno manteision yr Economi Gylchol.</p> <p>Ceir gwybodaeth bellach isod ac ynghlwm a byddem yn ddiolchgar os allwch hyrwyddo o fewn eich sefydliadau.</p> <p>Mae CEIC yn raglen 10 mis sy'n cynnwys gweithdai, ymweliadau â safleoedd, dysgu drwy weithredu, dysgu gan gymheiriaid a chefnogaeth arbenigol i alluogi rheolwyr i gyd-greu cynnyrch newydd neu atebion gwasanaeth a'u gweithredu gyda chymorth. Bydd y rhaglen yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu rhwydweithiau arloesi cydweithredol rhyng-sefydliadol i gefnogi gweithio rhanbarthol a galluogi sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i ddatrys problemau presennol. • Gwella gwybodaeth sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus am yr economi gylchol i gyflawni Amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a mynd i'r afael â her fwyaf ein cenedlaeth. • Gwella gwybodaeth a sgiliau arloesi i ysgogi cynhyrchiant a datblygu gallu sefydliadol <p><u>Datgan diddordeb</u></p> <p>Os oes eisoes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y rhaglen gallwch gofrestru eich diddordeb trwy'r ddolen isod: https://swansea.onlinesurveys.ac.uk/ceic-eoi</p>		
I Drafod	A oes angen penderfyniad?	Na
Cynigwyd gan		
Kate Harrop, Tîm Cynorthwyo BGC		



Circular Economy Innovation Communities

CEIC: Rhaglen Cymunedau Arloesi'r Economi Gylchol

Cefnogi rheolwyr y gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu atebion gwasanaeth newydd i wella cynhyrchiant a chyflwyno manteision yr Economi Gylchol (CE).

Beth yw e?

Rhaglen 10 mis sy'n cynnwys gweithdai, ymweliadau â safleoedd, dysgu drwy weithredu, dysgu gan gymheiriaid a chefnogaeth arbenigol i alluogi rheolwyr i gyd-greu cynnyrch newydd neu atebion gwasanaeth a'u gweithredu gyda chymorth. Bydd y rhaglen yn:


- Creu rhwydweithiau arloesi cydweithredol rhyng-sefydliadol i gefnogi gweithio rhanbarthol a galluogi sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus i ddatrys problemau presennol.
- Gwella gwybodaeth sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus am yr economi gylchol i gyflawni Amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a mynd i'r afael â her fwyaf ein cenedlaeth.
- Gwella gwybodaeth a sgiliau arloesi i ysgogi cynhyrchiant a datblygu gallu sefydliadol

Pwy ddylai ddod?

Rheolwyr ac arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector:

- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Trosolwg o'r prosiect





Circular Economy Innovation Communities

Ymagwedd

Mae'r rhaglen yn seiliedig ar:

- Weithdy sylfaenol a 'digwyddiad dysgu drwy brofiad' i ddatblygu Cymuned Ymarfer arloesol
- Gweithdai misol ar egwyddorion yr economi gylchol, meddwl dylunio a damcaniaethau, dulliau a thechnegau datblygu atebion gwasanaethau newydd; gan gymryd yr awenau o ran cyd-greu dulliau a gweithdrefnau newydd sy'n mynd i'r afael â heriau'r Economi Gylchol a nodwyd drwy'r defnydd o ddatblygu cynnyrch newydd / dulliau atebion gwasanaeth.
- Creu a hwyluso setiau dysgu gweithredol i gefnogi'r broses o roi dulliau a gweithdrefnau newydd ar waith.
- 'Ymyriadau ar y safle' i brofi a dysgu mewn sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus a ddewiswyd i dreialu dulliau a gweithdrefnau newydd.
- Ymweliadau Arfer Gorau i sefydliadau arloesol (y sector cyhoeddus a phreifat) i ddatblygu hyder, gwybodaeth a sgiliau o ran 'yr hyn sy'n gweithio'.
- Ymweliadau 'cyfnewid gweithle' i gynnig dysgu a chymorth 1 i 1.
- Creu 'hyrwyddwyr arloesi' ym mhob sefydliad i raeadru gwybodaeth a sgiliau a chynnal gweithgareddau y tu hwnt i'r rhaglen yn y Cymunedau Ymarfer.

Beth mae pobl yn ei ddweud?

*"Mae'r strwythur a'r mapio yn arwain at **feddylfryd newydd** a syniadau newydd. Mae gennym ni ffordd hollol wahanol o ystyried yr hyn rydym yn ei wneud i fynd i'r afael â phroblem..."*

"Rydym yn siarad am bartneriaeth â chwmni arall [i ddatblygu cynnyrch newydd] na fyddwn ni erioed wedi'i thrafod yn y gorffennol...", *"Roeddem ni'n arfer defnyddio'r dull ORID i ddiffinio ateb o blith llawer o syniadau..."*, *"Gweithio gyda chwmni oedd â safbwyntiau gwbl wahanol, gan ein hysbrydoli ni i weithio mewn ffordd wahanol..."* **Uwch reolwr, Dŵr Cymru Welsh Water**

"Rydym wedi derbyn gwerth go iawn gan yr offer a'r wybodaeth a gawsom trwy'r rhaglen. Rydym yn dechrau gweld y buddion amgylcheddol a'r arbedion costau o'n buddsoddiad yn nulliau diwydiant 4.0 sy'n gyffrous iawn i ni yma." **Uwch-beiriannwr Technoleg Newydd, Safle Injans Pen-y-bont Ford**



Gary Walpole, Cyfarwyddwr y Rhaglen
g.i.r.walpole@swansea.ac.uk

Cofrestrwch nawr i ddechrau ym mis Ionawr 2021

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â: ceic@swansea.ac.uk

<https://www.swansea.ac.uk/som/business/ceic-programme/>

